Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 27 Chwefror 2013**

Amser:
**10:50**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Sian Phipps**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8582

## Agenda

**Cyfarfod anffurfiol (10.50 - 11.00)**

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (11.00 - 11.05)

### 2. Uned Gyflawni'r Prif Weinidog (11.05 - 12.00) (Tudalennau 1 - 3)

CSFM(4) 01-13 - Papur 1
Carwyn Jones, y Prif Weinidog, Llywodraeth Cymru
Derek Jones, Yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru
Marion Stapleton, Pennaeth Uned Gyflawni'r Prif Weinidog

### 3. Tlodi plant - Craffu ar waith y Gweinidog (12.00 - 13.00)

(Tudalennau 4 - 7)
CSFM(4) 01-13 - Papur 2
Carwyn Jones, y Prif Weinidog, Llywodraeth Cymru
Kate Cassidy, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru
Eleanor Marks, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gymunedau, Llywodraeth Cymru

### 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitem 5.

## 5. Ystyried y dystiolaeth (13.00 - 13.10)

## Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

**CSFM(4) 01-13 – Papur 1**

### TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR CRAFFU AR WAITH Y PRIF WEINIDOG: RÔL YR UNED GYFLAWNI

**Cyflwyniad**

1. Mae'r Papur hwn wedi'i lunio i gynnig tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog am rôl Uned Gyflawni'r Prif Weinidog.

**Rôl yr Uned Gyflawni**

2. Sefydlwyd yr Uned Gyflawni ar 1 Medi 2011 i weithio yng nghanol Llywodraeth Cymru, canolbwyntio ar agenda craidd y Llywodraeth a sicrhau bod ei blaenoriaethau strategol yn cael eu cyflawni mewn ffordd integredig ac effeithlon – gan gefnogi'r sefydliad i gyflawni i'r lefel ofynnol a boddhad Gweinidogion.

3. Mae'r Uned Gyflawni yn dîm bach o 6 aelod o staff sy'n atebol i Ddirprwy Gyfarwyddwr. Mae'r aelodau hyn o staff yn weision sifil sydd wedi'u trosglwyddo o rannau eraill o'r sefydliad. Mae gan bob aelod o'r Uned Gyflawni gyfrifoldeb dros faes polisi penodol e.e. bydd un aelod o'r Uned yn gyfrifol am friffio annibynnol ar y maes portffolio Llywodraeth Leol a Chymunedau. Maent yn rhoi rhybudd cynnar i mi am anawsterau posibl sy'n gofyn am sylw gan Weinidogion. Ni sefydlwyd yr Uned i wneud gwaith pobl eraill neu gyflawni'r polisïau a'r canlyniadau'u hunain; yn hytrach y diben yw helpu adrannau i gyflawni a helpu pobl i sicrhau newid yn gynt.

4. Proses fewnol yw'r Uned y sefydlais i'm galluogi i fonitro cyflawni fel rhan o'r drefn lywodraethu. Mae'r uned hon yn ymdrin â materion mewnol gan fwyaf i gynnig gwerth a bod yn drwyadl, ac mae’n adrodd yn uniongyrchol ar hynt gwaith ac effeithiolrwydd pob adran o ran cyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Mae'n fy hysbysu am y polisïau sy'n cael eu llunio fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu i'm sicrhau eu bod yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith yn y ffordd orau.

5. Prif ddiben yr Uned Gyflawni yw dylanwadu ar ymddygiadau mewnol, gan helpu i greu ffyrdd newydd a mwy effeithiol o gyflawni amcanion allweddol y llywodraeth. Rôl yr Uned yw nodi'r ysgogiadau ar gyfer newid; herio a phrofi cadernid a chyflawni gweithgareddau allweddol; nodi cyfleoedd i alinio rhaglenni polisi er mwyn sicrhau canlyniadau gwell a mwy effeithiol; a herio syniadau a phrosesau polisi mewn ffordd adeiladol, a rhoi safbwynt gwahanol lle bo angen i swyddogion eu hystyried wrth fwrw ymlaen â'u gwaith. Nid yw'n meicro-reoli nac yn creu proses fiwrocrataidd sy'n amharu ar ymdrechion adrannau i gyflawni.

**Dulliau gweithredu'r Uned Gyflawni**

6. Mae'r uned yn casglu'r wybodaeth sydd ei hangen i fonitro'r Rhaglen Lywodraethu yn effeithiol. Er mwyn fy hysbysu, mae'n rhaid i bob aelod o'r Uned Gyflawni fod yn gwbl gyfarwydd â pholisïau, rhaglenni, materion sensitif ac unrhyw faterion posibl a/neu wirioneddol yn y maes portffolio y maent yn gyfrifol amdano.

7. Gall aelodau'r Uned Gyflawni weld yr holl wybodaeth a dogfennau sy'n berthnasol i'w maes cyfrifoldeb. Mae aelodau'r Uned yn eistedd ar fyrddau rhaglenni a grwpiau llywio, gan weithio gyda swyddogion ar elfennau allweddol yr amryw strategaethau adrannol. Maent yn cwrdd yn rheolaidd ag Uwch Dimau Rheoli'r Adrannau a gallant weld holl gyflwyniadau a phapurau'r byrddau polisi Gweinidogol a byrddau polisi mewnol. Yn y cyfarfodydd hyn maent yn herio syniadau a phrosesau polisi mewn ffordd heriol, ac yn rhoi cyngor i swyddogion ei ystyried wrth fwrw ymlaen â'u gwaith, gan helpu i ymchwilio i'r ystod lawn o opsiynau polisi y dylid eu hystyried er mwyn sicrhau'r canlyniadau polisi gorau yn y maes polisi perthnasol.

8. Mae'r Uned yn rhoi safbwynt gonest ac agored i mi ar y ffordd y mae polisïau'n cael eu datblygu. Mae'n rhoi gwybodaeth i mi am hynt y meysydd cyflawni allweddol, yn ogystal â nodi materion y mae angen i mi roi sylw iddynt ar unwaith. Mae hefyd yn dylanwadu ar fy nhrafodaethau cyflawni bob deufis gyda Gweinidogion a'u Cyfarwyddwyr Cyffredinol. Bwriad yr adroddiadau briffio yw dechrau trafodaeth ynghylch perfformiad rhyngof i, Gweinidogion a'u huwch weision sifil.

9. Mae'r wybodaeth friffio yn seiliedig ar asesiad yr awdur o hynt a pherfformiad yr adrannau o ran cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod polisïau'n cyd-fynd o hyd â blaenoriaethau Gweinidogol. Fel arfer bydd y dadansoddiad hwn yn nodi'r materion cyfredol ac yn tynnu fy sylw at unrhyw bynciau llosg posibl.

10. Lle mae'r Uned wedi nodi risg cyflawni posibl neu lle mae mater yn cael effaith negyddol ar gyflawni, bydd yn trafod gyda'r uwch swyddog perthnasol yn gyntaf fel bod modd cymryd camau amserol a phriodol. Os nad yw'r adran yn gweithredu nac yn ymateb i'r ymyrraeth gynnar hon, byddaf yn cael fy hysbysu am unrhyw bryderon.

**Perfformiad ac effeithiolrwydd yr Uned Gyflawni**

11. Rwy'n credu bod yr Uned wedi datblygu safbwynt cytbwys ar y sefydliad a gall nodi arferion neu ymddygiadau a allai'n rhwystro rhag cyflawni'n blaenoriaethau craidd. Mae'n gweithio ochr yn ochr ag adrannau i nodi'r risgiau o ran cyflawni'r ymrwymiadau allweddol yn ein maniffesto a sicrhau bod cyflawni'n cyd-fynd â disgwyliadau.

12. Mae'r Uned wedi annog swyddogion i newid eu meddylfryd i gyd-fynd â newidiadau o ran anghenion, amgylchiadau a blaenoriaethau, e.e. yng ngoleuni ansicrwydd economaidd neu newid mewn cymdeithas. Mae wedi ceisio annog y rhannau hynny o'r sefydliad nad ydynt yn gwbl gydlynus i greu'r cysylltiadau ac integreiddio'n polisïau'n llawn, gan oresgyn unrhyw rwystrau ymddangosiadol i gyflawni canlyniadau yn y ffordd fwyaf effeithiol o ran cost a mynd ati i ddatblygu polisïau ar sail canlyniadau.

13. Mae wedi ystyried a herio'r ffyrdd o ddyrannu adnoddau a chynllunio gweithlu ym meysydd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol, a hefyd a oes gennym y bobl â'r sgiliau cywir mewn meysydd penodol. Mae hefyd wedi ceisio herio biwrocratiaeth i sicrhau nad yw'n prosesau yn ein rhwystro rhag cyflawni.

14. Mae perthynas waith dda yn bodoli ar draws y Gwasanaeth Sifil. Ar lawr gwlad, mae timau wedi bod yn trafod yn agored ac wedi bod yn onest am yr heriau cyflawni y maent yn eu hwynebu, gan gynnwys heriau sy'n tarddu'n gorfforaethol a/neu'n wleidyddol. Maent wedi bod yn agored mewn cyfarfodydd am eu pryderon gwaith, lle maen nhw'n credu y gellid gwella, ac maent wedi nodi meysydd lle gellid gwella gwaith trawsadrannol. Mae'r Uned wedi helpu i brofi a yw'n polisïau craidd yn ddigon cadarn a/neu'n ymateb yn ddigonol i heriau newydd, ac mae wedi helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn rydym am ei gyflawni a beth ddylai'r canlyniad fod.

**Casgliad**

15. Sefydlwyd Uned Gyflawni'r Prif Weinidog i roi asesiad annibynnol i mi o bob maes portffolio fel y gallaf i fy hun fonitro'r Rhaglen Lywodraethu, gan ganiatáu herio rhagdybiaethau a chodi materion perthnasol er mwyn profi a yw polisïau'r Llywodraeth yn ddigon cadarn a/neu'n ymateb yn ddigonol i heriau newydd yng ngoleuni'r hinsawdd economaidd a'r gostyngiad mewn adnoddau.

16. Mae'r Uned wedi rhoi safbwynt diduedd a theg i mi ar bob adran. Mae wedi rhoi cyfle i mi gael trafodaethau preifat er mwyn cael barn, cyngor a gwybodaeth onest i fy ngalluogi i fonitro cynnydd, a gwneud Gweinidogion a'u hadrannau'n atebol. Mae'r Uned wedi cynnig safbwynt newydd ac mae'n gweithio'n adeiladol gyda chydweithwyr i ddylanwadu y tu ôl i'r llenni. Rwy'n credu na fydd yn bosibl gweld effaith yr Uned Gyflawni ar y sefydliad tan ddiwedd tymor y Cynulliad hwn, pan fydd modd barnu'i chanlyniadau ehangach yn y tymor canolig.

**Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC**
**Prif Weinidog Cymru**

## Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

**CSFM(4) 01-13 – Papur 2**

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar Drechu Tlodi a Thlodi Plant**

***1. Gweithio ar draws adrannau a sut y mae trechu tlodi plant yn ganolog i feysydd polisi Llywodraeth Cymru***

Lansiwyd ein *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* ym mis Mehefin y llynedd. Mae hon yn flaenoriaeth lwyr i ni a byddwn yn ceisio trechu tlodi ym mhopeth a wnawn yn y Llywodraeth.

Roedd y *Cynllun* yn dwyn ynghyd gyfraniadau gan yr holl Adrannau ac mae'n disgrifio'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i atal tlodi, i helpu pobl i gael gwaith ac i leihau effaith tlodi.

Caiff y cynllun ei ddiweddaru a'i adnewyddu ym mis Mehefin eleni ac mae’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Dirprwy Weinidog Plant yn cyd-gadeirio bwrdd rhaglen traws-lywodraethol i fwrw ati â'r gwaith hwn.

Mae trechu tlodi yn parhau i fod yn gyfrifoldeb cyfunol i'r Cabinet ar draws y Llywodraeth a gofynnais i bob Cyfarwyddiaeth benodi hyrwyddwr neu hyrwyddwyr tlodi i weithio gyda’u Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gynnal momentwm ar draws yr holl bortffolios, a sicrhau bod eu gwaith yn cydweddu.

Mae’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau hefyd wedi ysgrifennu at Arweinwyr a Phrif Weithredwyr yr awdurdodau lleol yn gofyn iddynt benodi hyrwyddwyr gwrthdlodi ar lefel uwch-swyddog ac ar lefel aelod. Rwy'n rhagweld y bydd yr hyrwyddwyr gwrthdlodi yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd fel grŵp a hefyd yn gallu gwneud gwahaniaeth drwy atgyfnerthu'r angen i gynnwys trechu tlodi yn holl waith yr awdurdod lleol. Mae Cynlluniau Integredig Sengl ar lefel leol yn gyfle i feddwl yn fwy strategol a hefyd i symleiddio’r broses. Mae cael hyrwyddwyr mewn awdurdodau lleol ar lefel uwch ac ar lefel wleidyddol yn un ffordd o sicrhau bod y Ddyletswydd Tlodi Plant yn cael ei hatgyfnerthu'n barhaus o fewn awdurdodau lleol ac mewn Cynlluniau Integredig Sengl.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod Tasglu Rhaglenni Gwrthdlodi'r Trydydd Sector wedi cael ei ffurfio y llynedd yn dilyn cynhadledd ar y cyd rhwng Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Sefydliad Bevan ynghylch ymateb i her gynyddol tlodi.

**2. *Cynnwys tlodi plant o fewn strategaeth wrthdlodi ehangach Llywodraeth Cymru***

Mae gweithredu i atal tlodi plant wrth wraidd ein *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi*. Mae rhai o'r prif feysydd ble y gallwn gael yr effaith fwyaf ar dlodi yn cynnwys cyrhaeddiad addysgol, gofal plant, timau sy'n gweithio â theuluoedd a chyflogaeth.

Mae ein hymdrechion i atal tlodi plant yn dechrau drwy dargedu buddsoddiadau i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant. O'r camau cynnar mewn beichiogrwydd hyd at fod yn oedolyn ifanc, ein nod yw lleihau anghydraddoldeb mor gynnar â phosibl a thorri'r cysylltiad rhwng anfantais gymdeithasol-economaidd, tangyflawni mewn addysg a'r diffyg cyfleoedd mewn bywyd o ganlyniad i'r rhain.

**3. Sut mae targedau Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni**

Yn y Rhaglen Lywodraethu ymrwymwyd i olrhain y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn erbyn yr heriau mawr hirdymor rydym yn eu hwynebu fel rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant, gweithio gyda theuluoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran iechyd ac addysg a diweithdra.

Eglurais adeg lansio'r Rhaglen Lywodraethu na fyddwn yn pennu targedau newydd yn erbyn dangosyddion yr heriau hirdymor hyn. Mae hyn yn adlewyrchu pa mor gymhleth yw'r heriau hyn a'u bod yn dibynnu ar ffactorau sy'n ysgogi polisi nad ydynt wedi'u datganoli i Gymru, fel polisi budd-daliadau lles. Yn fy marn i, mae'r dull gweithredu rydym wedi'i ddefnyddio yn meithrin dealltwriaeth aeddfetach o berfformiad drwy ganiatáu i ni gymharu ag awdurdodaethau eraill a mesur ein cynnydd dros amser. Dyna pam y byddaf yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth gynhwysfawr ar y dangosyddion hyn yn adroddiad blynyddol y Rhaglen eleni.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn olrhain perfformiad yn flynyddol o ran cynnydd yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Mae'r Cynllun yn amlinellu yn fanylach ddangosyddion perfformiad allweddol ein rhaglenni a'n gweithgareddau, sy'n cyfrannu ar y cyd i'r canlyniadau lefel uchel hyn.

Er enghraifft, nod Twf Swyddi Cymru yw creu 4,000 o swyddi chwe mis bob blwyddyn am y tair blynedd nesaf ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n ddi-waith a gweld cymaint â phosibl o'r swyddi hyn yn troi yn gyflogaeth gynaliadwy.

Mae'r rhaglen yn nesáu at ddiwedd ei blwyddyn gyntaf ac mae eisoes wedi creu ymhell dros 5,000 o swyddi ar gyfer pobl ifanc ym mhob rhan o Gymru. Mae dros 3,000 o bobl bellach mewn swyddi a grëwyd drwy Twf Swyddi Cymru. Mae'r rhaglen ar y trywydd iawn i lenwi 4,000 o swyddi erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

Rydym hefyd yn gweithio ar ehangu Dechrau'n Deg er mwyn dyblu'r nifer erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn. Rydym yn parhau i weithio'n agos ag awdurdodau lleol i gynllunio'r ffordd y caiff Dechrau'n Deg ei ddarparu, ac i sicrhau bod y cyllid yn parhau i gael ei dargedu yn yr ardaloedd hynny sydd fwyaf ei angen. Mae 145 o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo hyd yma, sy'n werth cyfanswm o bron £21 miliwn. Bydd hyn yn arwain at ddarparu gwasanaethau ychwanegol i tua 4,500 o blant rhwng 2 a 3 oed.

Mae'n amlwg y bydd ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth yn effeithio ar allu ein rhaglenni i gael effaith bositif ar ein canlyniadau hirdymor. Er enghraifft, amcangyfrifir y bydd rhyw 6,000 yn fwy o blant Cymru yn byw mewn tlodi cymharol yn 2012-13 o ganlyniad i'r diwygiadau i drethi a budd-daliadau a gyhoeddodd Llywodraeth y DU hyd at haf 2011. Bydd y newidiadau i fudd-daliadau a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref 2012 yn golygu hyd yn

oed fwy o newyddion gwael i deuluoedd yng Nghymru. Mae’n fwy pwysig nag erioed felly ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu ac yn amlinellu sut rydym yn mesur effaith camau gweithredu ein Cynllun.

O ganlyniad i'r Data Statudol a amlinellir ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 bydd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gosod adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn nhymor yr hydref 2013 ar yr amcanion a'r mesurau yn Strategaeth Tlodi Plant 2011. Bydd yr adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion hyn.

## 4. Rôl Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Llywodraeth y DU

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i leihau tlodi plant ledled y Deyrnas Unedig ac rydym yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth y DU i gynnal y targedau a amlinellwyd yn Neddf Tlodi Plant 2010 [1].

Roedd Deddf Tlodi Plant 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU gyflawni'r targedau canlynol o ran tlodi erbyn 2020.

• Tlodi cymharol: llai na 10 y cant o blant yn byw mewn tlodi incwm isel cymharol.
• Amddifadedd sylweddol: llai na 5 y cant o blant yn byw mewn amddifadedd sylweddol a thlodi incwm isel cyfun.
• Incwm isel absoliwt: lleihau’r gyfran o blant sy'n byw mewn tlodi incwm isel absoliwt i lai na 5 y cant.
• Tlodi parhaus: canran y plant sy'n byw mewn tlodi cymharol am dair o bob pedair blynedd (lefel y targed i gael ei phennu erbyn 2015).

Rydym hefyd wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU i sefydlu'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant ac i benodi Aelod annibynnol o Gymru i'r Comisiwn.

## 5. Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Mae ein dull o drechu tlodi yn blaenoriaethu anghenion plant ac mae'n seiliedig ar ein dull cyffredinol o weithredu egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Ers y dechrau, mae Llywodraeth Cymru wedi egluro yn gyson bod lleihau tlodi plant yn elfen sylfaenol o'i hagenda cyfiawnder cymdeithasol a hefyd yn rhan o'i blaenoriaethau allweddol i weithredu'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. O ystyried yr ymrwymiad hirsefydlog hwn byddem yn disgwyl gweld dilyniant a dull sydd wedi'i selio'n fwy ar hawliau dros amser yn hytrach na datblygu mentrau newydd neu fentrau gwahanol.

[1] Mae adran 8B o Ddeddf Tlodi Plant 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y DU gyhoeddi ei adroddiad blynyddol (sy'n cynnwys disgrifiad o'r mesurau a gymerodd Gweinidogion Cymru) bob blwyddyn ers i'r adran hon ddod i rym, hy cyn 8 Mai 2013.

Gallwch weld ffyrdd ymarferol o gyflawni'r ddyletswydd hon yn y cynllun plant:

(http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/rights/;jsessionid=36895688253DED60630F8A656BB096A6?skip=1&lang=cy)
Mae’r cynllun plant yn amlinellu 6 cham i'r broses sylw dyledus, sy'n cynnwys offeryn asesu effaith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.